**PWYLLGOR CRONFA BENSIWN DYFEDDYFED**

**28 MAWRTH 2023**

**PRESENNOL:** Cynghorydd D.E. Williams (Cadeirydd)(yn bersonol);

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**
D. Thomas a R. James;

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**
A. Brown – Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol;
J. Brown – Russell Investments;
A. Quinn – Russell Investments;
J. Zealander – LINK Group;

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwir):**
J. Blewitt – Archwilio Cymru;

**Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod:**
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;
A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol;
K. Gerard, Rheolwr Pensiwn;
M. Owens, Cyfrifydd Cynorthwywr
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn rhithwir):**
R. Hemingway, Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol.
**Y Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin ac o bell: 10.00 yb - 12.00 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR 23AIN TACHWEDD 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2022 yn gywir.**

**4. COFNODION BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED 18 HYDREF 2022**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn Cronfa Bensiwn Dyfed ar 18 Hydref, 2022 yn cael eu derbyn.**

**5. CYNLLUN ARCHWILIO AMLINELLOL 2023**

Croesawyd y Pwyllgor i'r cyfarfod Jason Blewitt o Archwilio Cymru a gyflwynodd Gynllun Archwilio Amlinellol 2023 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn manylu ar y canlynol:

• Cyfrifoldebau archwilio;
• Ffioedd a'r tîm archwilio;
• Llinell amser archwilio;
• Ansawdd archwilio;
• Newidiadau allweddol i ISA315 a'r effaith bosibl ar y Gronfa.

Mewn diweddariad i'r adroddiad a ddosbarthwyd, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai'r dyddiad cau ar gyfer cymeradwyo cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer 2022/23 yw 30 Tachwedd 2023 oherwydd pwysau adnoddau yn Archwilio Cymru, ond roedd ymrwymiad i osod y dyddiad cau hwnnw'n gynharach dros y blynyddoedd sydd i ddod. Yn ogystal, yn dilyn ymgynghoriad ar ffioedd, byddai cynnydd o 4.8% mewn ffioedd ar gyfer rhai archwiliadau ariannol a pherfformiad a chynnydd o 10.2% ar gyfer gwaith archwilio ariannol ISA 315 gan arwain at gynnydd o 15% yn gyffredinol o'r elfen archwilio ariannol o'r ffi. Byddai llythyrau sy'n manylu ar y cynnydd yn cael eu hanfon i bob Swyddog Adran 151 cyn bo hir.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Archwilio Amlinellol 2023.**

**6. MONITRO CYLLIDEB 1 EBRILL 2022 - 31 RHAGFYR 2022**

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Monitro Cronfa Bensiwn Dyfed a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol o ran blwyddyn ariannol 2022/23.Nodwyd bod y sefyllfa bresennol, fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022, yn rhagweld tanwariant o £6.9m o ran arian parod.

Rhagwelwyd y byddai gorwariant o £1m. Rhagwelwyd y byddai budd-daliadau sy'n daladwy yn £1.4m yn uwch na'r gyllideb a rhagwelwyd y byddai treuliau rheoli £714k yn is na'r gyllideb.

O ran incwm, roedd effaith net cyfraniadau ac incwm buddsoddi yn dangos cynnydd o £7.9m, yn bennaf o ganlyniad i ragweld incwm buddsoddi uwch na'r hyn roeddid wedi cyllidebu ar ei gyfer.

Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y gwariant cyffredinol oedd £108.8m ac mai cyfanswm yr incwm oedd £115.7m, gan arwain i sefyllfa llif arian gadarnhaol o £6.9m.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Adroddiad Monitro Cyllideb terfynol Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Rhagfyr 2022.**

**7. CYLLIDEB CRONFA BENSIWN DYFED 2023-2024**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2023-24. Nodwyd bod y gwariant arian parod cysylltiedig ar gyfer 2023-24 a oedd wedi'i bennu ar £122.8m a'r incwm arian parod cysylltiedig o £122.8m wedi arwain at gyllideb net o £0 a oedd yn rhoi hyblygrwydd i'r Gronfa ddefnyddio incwm buddsoddi ar sail gofynion llif arian.

O ran lefelau gwariant, nododd y Pwyllgor fod y buddion sydd i'w talu wedi cael eu hamcangyfrif i fod yn £108.9m a oedd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer cynnydd o 10.1% yn y pensiynau, ar sail Mynegai Prisiau Defnyddiwr mis Medi

2022, ynghyd ag effaith net o 2.5% ar gyfer aelodau newydd y pensiwn ac aelodau gohiriedig.

Amcangyfrifwyd bod treuliau rheoli yn £10.2m, ac o blith hwn roedd £7.95m wedi cael ei glustnodi ar gyfer ffioedd rheolwyr buddsoddi.

Nodwyd yr amcangyfrifwyd bod incwm ar fuddsoddiadau yn £24.2m i gynnal cyllideb ariannol niwtral er mwyn sicrhau nad oedd y gyllid yn dal unrhyw arian dros ben y gellid ei fuddsoddi.

Roedd y gyllideb gysylltiedig ar gyfer eitemau nad ydynt yn rhai arian parod wedi'i gosod ar £50m ar sail amcangyfrif yr enillion a'r colledion a gafwyd o ran portffolios rheolwyr unigol a gwerthiannau a phryniannau o fewn y portffolios eiddo.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Cyllideb Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer 2023-24.**

## 8. CYSONI ARIAN PAROD FEL YR OEDD AR 31 RHAGFYR 2022

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad Cysoni Arian Parod a roddai'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed.

Nodwyd ar 31 Rhagfyr, 2022 fod Cyngor Sir Caerfyrddin yn cadw £3.2m o arian parod ar ran y Gronfa ar gyfer gofynion llif arian uniongyrchol i dalu pensiynau, cyfandaliadau a chostau rheoli buddsoddiadau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Cysoni Arian Parod Cronfa Bensiwn Dyfed.**

## 9. ADRODDIAD GWEINYDDU PENSIYNAU

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a roddai ddiweddariad ar Weinyddu Pensiynau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar y gweithgareddau yn y gwasanaeth Gweinyddu Pensiynau ac roedd yn cynnwys materion rheoleiddiol, y gofrestr torri amodau, i-Connect, cysoniad GMP adroddiadau Ansawdd Data a llif gwaith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi’r Adroddiad Gweinyddu Pensiynau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

## 10. ADRODDIAD TORRI AMODAU 2022-2023

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Torri Amodau, mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed, i'w ystyried. Nodwyd bod Adran 70 o Ddeddf Pensiynau 2004 yn pennu'r ddyletswydd gyfreithiol i riportio achosion o dorri'r gyfraith. Mae Côd Ymarfer rhif 14, paragraffau 241 i 275, a gyhoeddwyd gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ym mis Ebrill 2015, yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch riportio'r achosion hyn o dorri'r gyfraith.

Cafodd Polisi Torri Amodau Cronfa Bensiwn Dyfed ei gymeradwyo gan Banel Cronfa Bensiwn Dyfed ym mis Mawrth 2016. O dan y polisi, roedd yn ofynnol i achosion o dorri'r gyfraith gael eu hadrodd i'r Rheoleiddiwr Pensiynau os oes achos rhesymol i gredu'r canlynol:

- na chydymffurfir – neu na chydymffurfiwyd – â dyletswydd gyfreithiol sy'n berthnasol i'r gwaith o weinyddu'r cynllun;

- bod yr anallu i gydymffurfio yn debygol o fod o arwyddocâd sylweddol i'r Rheoleiddiwr wrth iddo arfer unrhyw un o'i swyddogaethau.

Nododd y Pwyllgor fod nifer o achosion wedi bod ers y cyfarfod diwethaf lle nad oedd cyfraniadau gweithwyr/cyflogwr wedi'u derbyn ar amser. Byddai adroddiad yn cael ei anfon at y Rheoleiddiwr Pensiynau mewn perthynas â chyflogwr oedd wedi methu taliadau yn rheolaidd ac wedi methu â darparu dogfennau. Roedd £3,433.42 yn ddyledus i'r Gronfa gan y cyflogwr hwn am y cyfnod 1 Medi 2022 – 31 Ionawr 2023.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r Adroddiad Torri Amodau mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed.**

## 11. COFRESTR RISG

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod y Gofrestr Risg yn ddogfen waith a oedd yn tynnu sylw at holl risgiau a nodwyd mewn perthynas â swyddogaethau Cronfa Bensiwn Dyfed. Ers cyfarfod blaenorol y Pwyllgor roedd y Gofrestr Risg wedi'i hadolygu ac roedd y ddau risg canlynol wedi'u diwygio:

- DPFOP0010 (Methiant i ddenu, rheoli, datblygu, a chadw staff ar bob lefel yn briodol) – roedd y risg heb reolaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu risg uchel (a sgoriwyd yn flaenorol fel risg canolig) ac roedd y risg dan reolaeth wedi'i diweddaru i adlewyrchu risg canolig (risg isel cyn hynny). Roedd rheolaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu gan ddweud bod polisi recriwtio a chadw Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei weithredu;
- DPFOP0017 – roedd natur y risg wedi'i hehangu o fethiant i fodloni terfynau amser statudol gan arwain at gymhwyso'r cyfrifon, i risg ehangach gan gynnwys methu â chynnal papurau gwaith cadarn nad oedd yn rhoi sicrwydd o gywirdeb y cyfrifon. Roedd rheolaeth ychwanegol wedi'i hychwanegu sef presenoldeb mewn hyfforddiant Cyfrifon Cronfa Bensiwn CIPFA ac adolygiad o gyfrifon enghreifftiol Cronfa Bensiwn CIPFA.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo adroddiad y Gofrestr Risg.**

## 12. DRAFFT DATGANIAD STRATEGAETH ARIANNU

Cafodd y Pwyllgor y Datganiad Strategaeth Ariannu Drafft i'w ystyried, a sefydlodd strategaeth ariannu glir a thryloyw a fyddai'n nodi sut yr oedd rhwymedigaethau pensiwn cyflogwr pob Cronfa i'w bodloni wrth symud ymlaen. Nodwyd yr ymgynghorir â'r holl bartïon sydd â diddordeb mewn cysylltiad â Chronfa Bensiwn Dyfed, a rhoddwyd cyfle iddynt roi sylwadau cyn i'r Datganiad gael ei gwblhau a'i fabwysiadu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Ariannu diweddaraf.**

## 13. CYNLLUN BUSNES 2023-2024

Cafodd y Pwyllgor Gynllun Busnes Cronfa Bensiwn Dyfed ar gyfer y cyfnod 2023-2024 i'w ystyried, oedd yn manylu ar sut y byddai'r Gronfa yn cyflawni ei nodau ac yn nodi'r cynlluniau o safbwynt marchnata, ariannol a gweithredol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer 2023-24.**

**14. CYNLLUN BUSNES PARTNERIAETH PENSIYNAU CYMRU 2023-2026**

Cafodd y Pwyllgor Gynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru i'w ystyried ar gyfer y cyfnod 2023-2026, yn nodi sut oedd y Gronfa yn mynd i gyflawni ei hamcanion a sicrhau bod adnoddau digonol yn cael eu dyrannu i gyflawni'r amcanion hynny.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn amodol ar gymeradwyaeth gan Gyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru, gymeradwyo Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y cyfnod 2023-26.**

**15. PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - DIWEDDARIAD Y GWEITHREDWR**

Croesawodd y Cadeirydd gynrychiolwyr o'r LINK Group a Russell Investments a gyflwynodd yr adroddiadau diweddaraf am gerrig milltir a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru gan gynnwys yr Is-gronfeydd canlynol:-

- Cyfran 1 – Ecwiti Byd-eang
- Cyfran 2 – Ecwiti'r DU
- Cyfran 3 – Incwm Sefydlog
- Cyfran 4 – Marchnadoedd Datblygol

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y diweddariadau ynghylch cerrig milltir a chynnydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.**

**16. CYNLLUN HYFFORDDI**

Cafodd y Pwyllgor y Cynllun Hyfforddi terfynol ar gyfer 2022-2023 a'r Cynllun Hyfforddi newydd ar gyfer 2023-2024 gan manylu ar atodlen cyfarfodydd a digwyddiadau hyfforddi'r Pwyllgor ar gyfer aelodau a swyddogion Cronfa Bensiwn Dyfed.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Cynllun Hyfforddi 2022-2023 a chymeradwyo Cynllun Hyfforddi 2023-2024.**

**17. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

**18. ADRODDIAD PERFFORMIAD A RISG YMGYNGHORYDD BUDDSODDI ANNIBYNNOL 31 RHAGFYR 2022**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 17 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Ystyriodd y Pwyllgor Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol, a roddai wybodaeth mewn perthynas â pherfformiad y rheolwr buddsoddiadau ar gyfer pob chwarter, pob 12 mis a chyfnodau treigl o 3 blynedd, gan ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2022.

Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys cefndir y farchnad fyd-eang a materion i'w hystyried.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**18.1 nodi Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi Annibynnol fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022;**

**18.2 am y rhesymau a nodir yn yr adroddiad, gwerthu £50m o ecwiti o bortffolio goddefol y DU a'i ail-fuddsoddi ym mhortffolio Credyd Byd-eang PPC, a bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i ail-gydbwyso'r portffolio, o fewn rheolau ail-gydbwyso llym, er mwyn sicrhau y gall ail-gydbwyso tactegol llai ddigwydd mewn modd amserol.**

**19. ADRODDIAD PERFFORMIAD NORTHERN TRUST 31 RHAGFYR 2022**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 17 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022 a oedd yn nodi dadansoddiad o berfformiad o ran lefel y gronfa gyfan a chan y rheolwr buddsoddi am y cyfnodau ers i'r gronfa gychwyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad perfformiad Northern Trust ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022.**

**20. ADRODDIADAU'R RHEOLWR BUDDSODDI AR 31 RHAGFYR 2022.**

**Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 17 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddai datgelu gwybodaeth yn debygol o achosi niwed ariannol i'r Gronfa Bensiwn ac o niweidio trafodaethau parhaus a thrafodaethau'r dyfodol.**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiadau rheolwyr buddsoddi a oedd yn nodi perfformiad pob rheolwr fel yr oeddent ar 31 Rhagfyr 2022.

- BlackRock - Adroddiad Chwarterol 31 Rhagfyr 2022;
- Schroders - Adroddiad Buddsoddi Ch4 2022;
- Partners Group - Adroddiad Chwarterol Ch4;
- Cronfa Tyfu Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Rhagfyr 2022;
- Cronfa Credyd Byd-eang Partneriaeth Pensiwn Cymru - 31 Rhagfyr 2022.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiadau'r rheolwr buddsoddi ar gyfer Cronfa Bensiwn Dyfed.**

**Y CADEIRYDD** **DYDDIAD**